# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Hermon**

**Canolfan Gymunedol Hermon Community Centre**
**Hermon**
**Glogue**
**SA36 0DT**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn âCylch Meithrin Hermon

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Person Cofrestredig | Cristoffer Tomos |
| Lleoedd cofrestredig | 17 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Mai 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae plant yn hapus ac yn hyderus i gyfleu eu dymuniadau, a chaiff eu hanghenion eu hystyried yn llawn. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau, a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae plant wedi setlo ac maent wedi meithrin cydberthnasau agos â'u cyfoedion a'r staff. Maent yn chwarae'n egnïol ac yn dangos mwynhad wrth ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Mae staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Maent yn rheoli risgiau ac yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol a chyffrous sydd yn berthnasol i gefndir y plant ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i ddysgu.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau sydd yn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau iechyd a diogelwch da ac yn cymryd cyfleoedd i gyflwyno cydbwysedd da i blant fel eu bod yn cadw’n ddiogel a mwynhau profiadau dysgu cyffrous.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i welliannau parhaus ac yn deall eu cyfrifoldebau rheoliadol. Maent yn sicrhau hyfforddiant parhaol i staff, ac yn datblygu’r broses o goruchwylio staff yn fwy cyson. Maent wedi meithrin a sefydlu cydberthnasau gref â'r rhieni a'r gymuned leol, sy’n sicrhau profiadau dysgu eang i blant.

## Llesiant — Da

Mae plant yn hapus ac yn mwynhau eu rhyddid i wneud penderfyniadau a dewisiadau yn eu chwarae a'u profiadau dysgu. Maent yn cael cyfleoedd lu i ddefnyddio eu lleisiau a chynnig barn. Er enghraifft, mae plant yn gofyn i gael sticeri yn yr ardal marcio, yn dewis paratoi cawl tatws yn y gegin fwd a threulio amser gydag adnoddau'r fferm. Yn ystod cyfnodau snac a chinio, maent yn hyderus i ddweud eu bod wedi cael digon i fwyta ac yn gofyn pan maent yn dymuno mynd i'r tŷ bach. Er enghraifft, "*Ga i fynd i'r tŷ bach?", "Ga i sychu trwyn?, "Gai mwy plîs?"*

Mae bron bob un plentyn wedi setlo yn y lleoliad ac yn mwynhau cwmni ffrindiau newydd a staff. Maent wedi dechrau datblygu cydberthnasau da gyda'u cyfoedion ac yn sgwrsio yn hapus ymysg ei gilydd. Maent yn gyfforddus ag ymwelwyr. Er enghraifft, wrth gerdded gyda'r plant o'r ardal tŷ bach, mae plant yn ffurfio fel trên, ac yn dweud wrthym ni i *"dala sownd"* gan ddangos ble i osod ein dwylo ar eu hysgwyddau i ymuno yn y trên.

Mae plant yn magu cydberthnasau cryf gyda'u cyfoedion ac yn mwynhau cydweithio wrth chwarae a thacluso. Yn ystod sesiwn amser cylch maent yn mwynhau sgwrsio ac enwi eu hanifeiliaid anwes, gyda rhai yn hyderus i adrodd straeon am anifeiliaid eu cartrefi a'u ffermydd. Mae plant wedi datblygu dealltwriaeth glir o'u hunaniaeth a'u diwylliant ac yn cael pleser yn ffocysu ar thema'r wythnos sef cefnogi ffermwyr. Maent yn frwdfrydig ac yn adrodd am brofiadau ffermio eu hunain gyda dealltwriaeth a sgiliau iaith clir.

Mae plant yn cael cyfleoedd di-ri i chwarae a dysgu drwy thema'r mis. Maent yn mwynhau dysgu sgiliau fel torri llysiau i baratoi cawl. Mae plant yn diddori yn y broses a mwynhau blasu'r cawl y maent wedi eu gwneud. Gwelsom luniau o weithgareddau eraill yr wythnos wrth i blant coginio pice bach a phrofi gweithgaredd awyr agored ar eu tractorau bach. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd y plant wedi gwisgo ar gyfer Diwrnod Llyfr y Byd, a dangos hwyl wrth iddynt gael y cyfle, fesul un, i ddangos y llyfrau oedd ganddynt. Mae plant yn mwynhau defnyddio ystod o offer go iawn y gegin fwd fel sosbenni, stwnsiwr tatws a Chennin Pedr i greu cawl Cymru. Maent yn mwynhau amser stori a'r profiad o wrando a chanolbwyntio gyda nifer yn awyddus i gyfrannu ac ateb cwestiynau. Yn yr ardal allanol, mae plant yn anturus a phrysur. Er enghraifft, wrth sefyll ar y llong ddringo maent yn galw, *"Dewch i'r parti pirate,"* tra bod eraill yn dangos sgiliau ac amynedd wrth ddefnyddio tractor i symud brics o un ardal o'r iard chwarae i ardal arall.

Mae plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth cadarn wrth iddynt fwynhau hunan gofrestru wrth gyrraedd. Mae rôl helpwr y dydd yn gweithio'n effeithiol. Er enghraifft, mae plant yn magu hyder a hunan fri wrth arwain gyda thasgau annibynnol fel sicrhau bod y troli bwyd a diod yn cyrraedd y byrddau. Maent yn derbyn tystysgrifau am eu hymdrechion ac yn mwynhau'r clod a'r teimlad o gyflawniad. Mae plant yn defnyddio'r tŷ bach, golchi eu dwylo, sychu trwyn, tacluso, bwyta, chwarae, a gwisgo eu hesgidiau glaw cyn chwarae yn y twba tywod.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae staff yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant a hybu iechyd a lles y plant yn eu gofal. Maent yn deall ei polisi a gweithdrefnau diogelu a gwelsom siartiau llif o amgylch y lleoliad yn nodi rhifau cyswllt fel y gall staff godi pryderon. Mae hyfforddiant y staff ar ddiogelu plant wedi eu cwblhau. Mae gweithdrefnau cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn gywir ac mae staff wedi diweddaru eu hyfforddiant cymorth cyntaf yn dilyn ein hymweliad. Mae gan y staff trefniadau clir am gadw plant yn ddiogel o ran alergeddau. Mae ganddynt weithdrefnau hylendid cadarn. Mae staff yn sychu byrddau i lawr cyn cyfnodau bwyta ac yn annog y plant i ystyried eu glendid personol wrth olchi eu dwylo a sebon a sychu eu dwylo yn annibynnol. Mae rhieni yn darparu bwyd i'w plant ar gyfer snac a chinio ac mae staff yn atgoffa plant am eu fflasgiau ddŵr wrth i'r rhain fod ar trolis ger llaw. Er na welsom y broses newid cewynnau, mae ganddynt bolisi clir a chofnodion newid cewynnau cywir. Mae staff yn defnyddio gweithdrefnau diogel i gerdded plant i doiledau'r ganolfan ac yn eu cefnogi i fod yn annibynnol. Mae staff yn deall eu gofynion i gefnogi plant ac anghenion dysgu ychwanegol a gwelsom dystiolaeth o gydweithio effeithiol gydag unigolion proffesiynol yn ystod ein hymweliad.

Mae staff yn garedig ac yn dangos parch tuag at y plant. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn rolau model da. Mae staff wedi sefydlu perthnasau cynnes ac yn rhyngweithio mewn modd cefnogol a chysurus. Maent yn cynnig amserlen gytbwys sy'n cynnwys trefn a rhyddid i blant wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae staff yn modelu'r iaith Gymraeg yn glir a chywir wrth sgwrsio sy'n cael effaith gadarnhaol ar ryngweithio agored a naturiol gyda'r plant. Maent yn cynnig cyfleoedd i fwynhau cyfnodau bwyta mewn modd cymdeithasol o amgylch y bwrdd ac mae staff yn eistedd wrth ymyl y plant i gynnig sicrwydd, cefnogaeth a chlod. Maent yn cyflwyno strategaethau er mwyn rheoli ymddygiad plant ac yn annog arfer da fel tacluso a chydweithio'n garedig.

Mae staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd eang i chwarae yn rhydd a chyflawni gweithgareddau. Er enghraifft, paratoi crefftau ar gyfer Sul y Mamau a dydd Gŵyl Dewi. Gwelsom fod y staff wedi cynllunio amserlen lawn ar gyfer thema'r wythnos sef y fferm wrth iddynt sicrhau profiadau fel gwneud brechdanau cig eu hunain a chreu defaid gwlân ar gyfer arddangosfa. Tu allan, mae staff yn cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod adnoddau yn eu lle wrth gefnogi plant i blannu blodau, a defnyddio pibell ddŵr hir i ddyfrio eu potiau blodau. Mae staff yn weithgar wrth gefnogi ac annog y plant i fod yn gwrtais, aros tro a rhannu adnoddau. Er enghraifft, yn yr ardal cartref o fewn y sied allanol, mae staff yn ymuno yn y chwarae rôl ac yn cefnogi plant i feddwl am yr adnoddau sydd angen i greu prydiau bwyd.

## Yr Amgylchedd Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad polisïau a gweithdrefnau diogelwch clir sydd yn sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel. Maent yn sicrhau amgylchedd lle mae prif ddrws y lleoliad ar glo ar bob adeg. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw ystod o asesiadau risg pwrpasol ar gyfer bob ardal ac adeg. Er enghraifft, y lleoliad, ardal allanol, teithiau a risgiau fel tân. Maent yn cadw cofnodion, driliau ac offer dân cywir, sy'n dangos gweithdrefnau clir i ddiogelu plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi diweddaru'r cofrestr staff yn ystod yr arolwg wrth ffurfioli'r system o gofnodi dyddiol. Maent yn defnyddio cloch os oes angen, i ddenu sylw'r plant er mwyn eu casglu ac mae hyn yn gweithio'n effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw llyfr ymwelwyr sy'n sicrhau diogelwch pawb tra ar y safle. Maent yn sicrhau bod cymarebau staff i blant yn gywir ac yn cael eu gweithredu yn effeithiol ar bob adeg. Maent yn cadw bocsys cymorth cyntaf ar y safle ac ar gyfer teithiau oddi ar y safle.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd croesawgar ac yn defnyddio'r safle yn effeithiol. Mae'r brif fynedfa yn arddangos gwybodaeth plant, trefniadau mewn argyfwng fel tân, y broses ddiogelu a'r cynllun gweithredol. Gwelsom orsaf sychu trwyn yn cael ei defnyddio yn gyson yn dangos bod y plant yn gyfarwydd â'r drefn ac yn mwynhau yr annibyniaeth i gyflawni'r dasg yma. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw ystafell ar gyfer gweithgareddau fel crefft, arbrofi a choginio. Mae gan yr ardal gorsaf golchi dwylo sy'n caniatáu'r plant i fod yn annibynnol cyn cyfnodau bwyd neu yn dilyn bod tu allan. Yn y brif ystafell mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig ardaloedd cynnes, diddorol ac agored i blant. Er enghraifft, ardaloedd marcio, mathemateg, digidol, a charped lle mae plant yn mwynhau ymgynnull a chymdeithasu. Yn yr awyr agored, maent yn cynnig darpariaeth gyffrous fel llong ddringo a sied newydd lle mae plant wrth eu bodd yn chwarae rôl. Maent yn cynnig cyfleoedd i blant ddefnyddio dŵr, adeiladu a meithrin eu sgiliau ar feiciau a thractorau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi ystyriaeth i ddathlu amrywiaeth ac yn cyflwyno'r plant i'r byd. Maent yn arddangos gwaith y plant o ddathlu digwyddiadau a chrefyddau byd eang. Er enghraifft, bwrdd Cymru, Blwyddyn Newydd Tsieineaidd, ac arddangosfa o bysgod gwahanol sy'n dathlu amrywiaeth a chyfartaledd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw ystod eang o ddarpariaeth ac adnoddau o safon. Mae'r rhain yn addas am oedran a lefelau datblygiad y plant ac yn cael eu storio a chylchdroi er mwyn cadw diddordebau'r plant. Er enghraifft, maent yn newid defnydd y ddarpariaeth fel y siop neu'r sied i gyd-fynd â'r thema. Maent yn gosod eu hadnoddau mewn unedau storio clir sydd ar lefel y plant. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau fel Colin y Crwban i atgyfnerthu gwerthoedd, gofal at eraill a moesau fel rhannu, bod yn garedig i eraill a dweud plîs a diolch.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw polisïau a gweithdrefnau sy'n adlewyrchu eu hethos a'u gwaith. Maent yn cydweithio'n agos ac yn cefnogi ei gilydd i sicrhau eu bod yn deall a dilyn eu cyfrifoldebau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn y gofynion rheoliadol ac yn cadw ystod o gofnodion yn ddiogel ar y safle sef ffeiliau unigol y plant a thystysgrifau cyfredol. Maent yn sicrhau bod ganddynt dystysgrifau cynllun datgelu a gwahardd i bob aelod staff ac yn sicrhau eu bod adnewyddu y rhain yn brydlon.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwerthuso'r gofal wrth ddosbarthu, casglu a chofnodi barn rhieni, staff a phlant drwy holiaduron a thrafodaethau. Trwy wneud hyn, maent yn cwblhau adroddiad ansawdd gofal yn flynyddol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i gyflwyno syniadau newydd, a sicrhau gwelliannau parhaol i'r lleoliad. Dywedodd y plant eu bod yn mwynhau teithiau ar y bws, mynd allan am dro, ioga, clwb cinio, coginio, sticeri a chanu. O ganlyniad, mae staff yn ystyried dymuniadau'r plant wrth gynllunio themâu a gwelsom dystiolaeth o hyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gofalu am ei staff ac yn sicrhau bod gweithdrefnau a systemau cadarn yn eu lle. Maent yn cadw ffeiliau staff a gwelsom ffeil darpar aelod staff yn cael ei gwblhau yn ystod yr arolwg, tra'n cwblhau cyfnod anwytho effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw trefn ar ofynion hyfforddiant gorfodol staff sef diogelu a diogelwch bwyd. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddilyn cyrsiau ychwanegol fel dysgu yn yr awyr agored a darnau rhydd. Dywedodd staff ei bod yn hapus ac yn mwynhau'r naws agored a gweithgar o fewn y tîm. Maent yn dilyn proses o arfarnu blynyddol, ond nid oedd tystiolaeth o gyfarfodydd goruchwylio cyson neu dargedau personol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bartneriaeth gadarn gyda'r ganolfan ac yn cymryd bob cyfle i ddefnyddio'r safle i gydweithio gyda'r gymuned. Er enghraifft, parti penblwydd y lleoliad yn 40 oed, cwrdd â henoed y pentref a nosweithiau bingo. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cydweithio'n agos ac effeithiol a phobl broffesiynol er mwyn cwrdd â gofynion unigol y plant. Maent hefyd wedi sefydlu partneriaethau effeithiol gyda'r ysgol leol yn ogystal â lleoliadau gofal plant gan eu bod yn cynnig gwasanaeth cludiant i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu nifer o weithgareddau sy'n annog rhieni a'r gymuned i fynychu a chymryd rhan. Er enghraifft, bore cefnogi ffermwyr, paratoi pice bach gydag aelodau hŷn teuluoedd y plant. Dywedodd rhieni bod eu plant wrth eu bodd a bod y staff yn hawddgar a chefnogol. Aethant ymlaen i ategu eu bod yn mwynhau gweld a darllen am weithgareddau eu plant ar rwydwaith cymdeithasol y lleoliad. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn cyngerdd Nadolig yn y ganolfan ac yn ymweld â'r parc dinosoriaid, siop lyfrau, a'r caffi lleol. Maent yn dathlu diwrnodau sy'n ymwneud a cherddoriaeth a llyfrau ac yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd arbennig i fwynhau profiadau eang i ddysgu, datblygu a chymdeithasu gyda'i gilydd.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| Standard 13 (Day Care) - Suitable Person | Ensure all staff receive regular supervisions to enable them to think about the quality of their practice and monitor their targets. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/05/2024